
# GLYNN VIVIAN

# Drysau Tylwyth Teg

**Byddwch angen**:

- Darnau o gardfwrdd maint bach a chanolog (amrywiaeth o drwch)
- Glud ('Glud ysgol' neu PVA sydd orau ar gyfer hyn)
- Siswrn
- *Deunyddiau hapgael (e.e. dail,petalau,hadau,gwair,botymau)
- *Paent neu fan ddarnau o bapur lliw (i addurno)
- Pennau ffelt i ychwanegu

(* Opsiynol)




1.Tynnwch amlinelliad eich drws ar ddarn o gerdyn a thorrwch o'i hamgylch gyda siswrn.

2. Defnyddiwch y templedi atodol i'ch helpu, neu cymrwch ysbrydolaeth o'r drysau hyn ar gyfer creu siap ac addurno eich drws.

Cofiwch mai drws tylwyth teg ydyw felly nid oes rhaid iddi edrych fel drysau pobl, ac mae onglau crwca yn hynod ffasiynol!

3. Nawr addurnwch eich drws fel ei fod yn gartref i Frenin neu frenhines y Tylwyth teg!

**Syniadau Addurno**

Gallwch ddefnyddio man ddarnau o gardfwrdd i greu dimensiwn a nodweddion fel fframiau, paneli drws, tô ac ati.
Gludwch ddeunyddiau hapgael neu defnyddiwch baent i ychwanegu nodweddion hwyl i'ch drysau. Beth am deils dail, dolenni botwm neu fasarn, neu ffenestri gwydr-y-mor?
Defnyddiwch ddeunyddiau bydd yn pydru'n naturiol fel y bydd eich drws yn dychwelyd i'r ddaear yn ddiogel.

**Rhannwch yr hwyl!**
**Dotiwch eich ddrysau yn yr ardd neu mewn mannau lle bydd plant arall yn gallu eu darganfod.**
**Cofiwch dynnu lun a'i rannu @glynnvivian**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN

GLYNN VIVIAN

Cyngor Abertawe
Swansea Council

